

# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyngor Sir Ceredigion

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3244A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich Cyfrifon. Mae rhai materion y mae angen eu dwyn i'ch sylw cyn eu cymeradwyo.

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad	4
Asedau Seilwaith	4
Barn archwilio arfaethedig	5
Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad	5
Atodiadau	
Atodiad 1 – llythyr sylwadau terfynol	7
Atodiad 2 – adroddiad archwilio arfaethedig	10
Atodiad 3 – crynodeb o gywiriadau a wnaed	15

# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

## Cyflwyniad

- 1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch cyfrifon ar gyfer 2021-22 yn yr adroddiad hwn.
- 2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r swyddogion perthnasol.
- 3 Ni all archwilwyr byth roi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai arwain fel arall at gamarwain rhywun sy'n defnyddio'r cyfrifon.
- 4 Fe bennon ni lefel o £2.8 miliwn ar gyfer hyn yn archwiliad eleni.
- 5 Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a all fod o fwy o bwysigrwydd i'r darlennydd ac rydym wedi pennu lefel is o berthnasedd ar gyfer y rhain, fel a ganlyn:
  - Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Aelodau o Staff – £1,000
  - Datgeliadau Partïon Cysylltiedig ar gyfer swyddogion ac aelodau – £10,000
- 6 Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni'n sylweddol ond ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, mae'r gwaith canlynol yn dal heb ei gyflawni:
  - yr adolygiad terfynol o'n ffeil archwilio; a hefyd
  - ein hadolygiad terfynol o ddatganiadau ariannol diwygiedig 2021-22.
- 7 Byddwn yn darparu diweddariad ar lafar am yr eitemau hyn sydd heb eu cwblhau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor ym mis Ionawr 2023.
- 8 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; rydym yn annibynnol arnoch chi; ac nid yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthnasoedd rhyngom ni a chi a allai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein tyb ni.
- 9 Bu'n angenrheidiol newid yr Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr archwiliad o'r un a hysbysebwyd yn y Cynllun Archwilio. Derwyn Owen, sy'n Gyfarwyddwr yn Archwilio Cymru, oedd yr Arweinydd Ymgysylltu ar gyfer yr archwiliad o'r cyfrifon.

## Asedau Seilwaith

- 10 Yn gyffredin ag awdurdodau lleol eraill, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi manteisio ar ryddhadau dros dro ar gyfer datgeliadau llai mewn perthynas ag asedau seilwaith y darparwyd ar eu cyfer yn y Diweddariad i'r Cod a Manylebau ar gyfer Codau yn y Dyfodol ar gyfer Asedau Seilwaith a'r newidiadau yn 2022 i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003.
- 11 Nid yw'r awdurdod wedi datgelu cost gros a dibrisiant cronus ar gyfer asedau seilwaith, am bod arferion adrodd hanesyddol a diffygion gwybodaeth canlyniadol yn golygu nad yw cost gros a dibrisiant cronus yn cael eu mesur yn gywir ac na

fyddent yn cynrychioli'r sefyllfa o ran asedau mewn modd ffyddlon i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol.

- 12 Dull dros dro yw'r rhyddhadau sydd wedi'u bwriadu i alluogi awdurdodau i fynd i'r afael â'r diffygion gwybodaeth a pharatoi gwybodaeth gadarn i ategu gwerth cario asedau seilwaith. Dim ond i flynyddoedd ariannol hyd at a chan gynnwys 2024-25 y mae'r rhyddhadau dros dro'n berthnasol.
- 13 Mae **Arddangosyn 1** yn dangos effaith y mater hwn ar yr amserlen archwilio.

### Arddangosyn 1 – effaith materion cenedlaethol ar amserlen archwilio eleni

<b>Amserlen</b>	<p>O ystyried y llythiant parhaus sy'n deillio o bandemig COVID-19 a materion cenedlaethol mewn perthynas ag archwilio asedau seilwaith, darparodd Llywodraeth Cymru hyblygrwydd o ran y terfynau amser ar gyfer paratoi cyfrifon a'r terfynau amser ar gyfer archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• cafodd y raddfa amser ar gyfer cwblhau eich cyfrifon ei hadolygu gan Lywodraeth Cymru o 31 Mai 2022 i 31 Awst 2022;</li><li>• cawsom y cyfrifon drafft ar 16 Awst 2022;</li><li>• cafodd ein terfyn amser ar gyfer cwblhau ein harchwiliad ei newid o 31 Gorffennaf 2022 i 31 Ionawr 2023; ac</li><li>• rydym yn disgwyl i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi ar 30 Ionawr 2023.</li></ul>
-----------------	---

## Barn archwilio arfaethedig

- 14 Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch chi wedi rhoi Llythyr Sylwadau inni yn seiliedig ar yr un a nodir yn **Atodiad 1**.
- 15 Rydym yn rhoi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall, rydym yn rhoi barn ddiamod.
- 16 Mae'r Llythyr Sylwadau'n cynnwys rhai cadarnhadau y mae angen inni eu cael gennych chi dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhau gwybodaeth benodol arall yr ydych chi wedi'i darparu ar ein cyfer yn ystod ein harchwiliad.
- 17 Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**.

## Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad

### Camddatganiadau nas cywirwyd

- 18 Nid oes unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd wedi'u cynnwys yn y cyfrifon archwiliedig.

## Camddatganiadau a gywirwyd

- 19 Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon yn wreiddiol sydd bellach wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. Fodd bynnag, rydym ni'n ystyried y dylid dwyn y rhain i'ch sylw ac felly fe'u nodir ynghyd ag esboniadau yn **Atodiad 3**.

## Materion arwyddocaol eraill sy'n codi o'r archwiliad

- 20 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn rhoi gwybod i chi am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Mae un mater yr ydym yn dymuno'i ddwyn i'ch sylw.
- 21 Rhwng 2015-16 a 2019-20, fe wnaethom nodi anawsterau a oedd yn codi o archwilio asedau'r Cyngor o ran trywydd archwilio annigonol a diffyg Sicrwydd Ansawdd effeithiol i sicrhau bod materion a gwallau'n cael eu hadnabod yn fewnol ac nid pan fo archwilwyr yn gwneud eu gwaith.
- 22 Er na wnaethom ganfod y materion hyn y llynedd, fe wnaethom ganfod materion tebyg eto yn ystod archwiliad eleni. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn ymdrin â'r rhain ac yn adeiladu ar y gwelliannau a wnaed yn wreiddiol yn 2020-21. Caiff asedau'r Cyngor eu hailbrisio ar raglen dreigl dros bum mlynedd ac mewn blynyddoedd yn y dyfodol bydd llwyth gwaith y rhaglen yn drymach. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod gwella'n barhaus yn dal i fod yn bwysig i sicrhau nad yw materion yn codi eto yn y dyfodol.

# Atodiad 1

## Llythyr sylwadau terfynol

[Pennawd llythyr y corff a archwilir]

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

26 Ionawr 2023

### Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2021-22

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan honno o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol a gaiff ei harchwilio) Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u cywirdeb a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

### Sylwadau'r rheolwyr

#### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22; yn arbennig, bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny; a
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;

- gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
- mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gyngor Sir Ceredigion ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; a
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd a thrafodion â phartïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau am y Datganiadau Ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rhai a fesurwyd ar sail gwerth teg, yn rhesymol.

Rhodddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau neu ddatgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhodddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd yn y datganiadau ariannol.



## Sylwadau gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar 26 Ionawr 2023.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr wybodaeth honno wedi'i chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Llofnodwyd gan:

[Swyddog sy'n llofnodi ar ran y rheolwyr]

[Swyddog neu Aelod sy'n llofnodi ar ran y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu]

Dyddiad: 26 Ionawr 2023

Dyddiad: 26 Ionawr 2023

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig

### Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Ceredigion

#### Barn am y datganiadau ariannol

Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ceredigion yn cynnwys y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad ar Lifoedd Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ceredigion ar 31 Mawrth 2022 ac o'i incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2021-22.

#### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar y Cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Cyngor i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi'i baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2020-21; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r

datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i baratoi yn unol â'r canllawiau.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am y Cyngor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon ar **dudalen 8**, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog cyllid cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r Cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae anghysonderau, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwyf yn dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i

ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Cyngor a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ceredigion sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll wrth gofnodi dyddlyfrau anarferol.
- cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Gyngor Sir Ceredigion yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Sir Ceredigion.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac ymgynghorwyr cyfreithiol am ymglyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Cyngor; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd posibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Sir Ceredigion, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## **Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ceredigion yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
30 Ionawr 2023

24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

# Atodiad 3

## Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau chi am y broses adrodd ariannol.

### Arddangosyn 2: crynodeb o gywiriadau a wnaed

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros gywiro
<p>Cost Gros o £165,721,000; a Dibrisiant Cronnus o £29,775,000</p> <p>(Dim effaith ar y fantolen ar y cyfan)</p>	<p><b>Nodyn 1.13 Eiddo, Offer a Chyfarpar a'r Fantolen</b></p> <p>Fel a nodir ym mharagraff 11, mae'r balansau cost hanesyddol a dibrisiant cronnus sy'n ymwneud ag asedau seilwaith wedi cael eu tynnu allan o'r cyfrifon. Mae hyn yn golygu bod y golofn seilwaith wedi cael eu thynnu allan o nodyn 1.13 a dangosir gwerth llyfr net asedau seilwaith yn y Fantolen. Nid oes effaith ar y fantolen ar y cyfan.</p>	<p>I fanteisio ar ryddhadau dros dro ar gyfer datgeliadau llai mewn perthynas ag asedau seilwaith.</p>
<p>Cost Gros a Dibrisiant Cronnus o £2,122,360 (GLIN o DDIM)</p> <p>(Dim effaith ar y fantolen ar y cyfan)</p>	<p><b>Nodyn 1.13 Eiddo, Offer a Chyfarpar a'r Fantolen</b></p> <p>Roedd Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cynnwys nifer o asedau yr oedd y Cyngor eisoes wedi eu gwaredu. Cafodd yr asedau hyn eu dibrisio'n llawn ac felly roedd GLIN y rhain yn DDIM. Diwygiwyd nodyn 1.13 i dynnu allan y Gost Gros a Dibrisiant Cronnus ar gyfer y rhain (cyfanswm o £2,122,360 ar gyfer y naill a'r llall) heb unrhyw effaith ar gyfanswm y cwbl yn Nodyn 1.13 na'r Fantolen .</p>	<p>I sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.</p>

Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros gywiro
£452,452	<p><b>Nodyn 1.13 Eiddo, Offer a Chyfarpar a'r Fantolen</b></p> <p>Ni chwblhawyd y prisiad o'r dosbarth asedau Gwasanaethau Cymdeithasol, a oedd i fod i gael ei gwblhau yn 2021-22 fel rhan o raglen dreigl bum mlynedd y Cyngor o asedau. Mae'r rhain wedi cael eu prasio wedyn yn ystod y broses archwilio, gan arwain at gynnydd mewn prisiadau tuag i fyny o £1,199,641 a phrasiadau tuag i lawr o £747,189 (cynnydd net o £452,452 i werth asedau yn Nodyn 13 a'r Fantolen).</p>	I sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.
£151,000	<p><b>Nodyn 1.13 Eiddo, Offer a Chyfarpar a'r Fantolen</b></p> <p>Canfu profion archwilio naw ased y mae'r modd y triniwyd gwariant nad yw'n cynyddu gwerth ar eu cyfer yn anghywir. Mae gwerth yr asedau hyn yn y cyfrifon wedi'i danddatgan o £151,000. Diweddarwyd y cyfrifon i gynyddu gwerth yr asedau yn ôl y swm yma.</p>	I sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.
£600,000 (Dim effaith ar y fantolen ar y cyfan)	<p><b>Nodyn 1.13 Eiddo, Cyfarpar ac Offer a'r Fantolen</b></p> <p>Diwygiwyd Nodyn 1.13 i ailddosbarthu ased a oedd yn gyfanswm o £600,000 a gofnodwyd yn wreiddiol o fewn Asedau Dros Ben, ond canfu profion archwilio y dylai hwn fod wedi cael ei gofnodi o fewn Asedau a Ddelir i'w Gwerthu.</p>	I sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.
£86,000 (Dim effaith ar y prif ddatganiadau ar y cyfan)	<p><b>Nodyn 1.33 Trafodion Partïon Cysylltiedig</b></p> <p>Canfu profion archwilio nifer o bartïon cysylltiedig mewn perthynas ag aelodau nad oeddent wedi cael eu cynnwys yn Nodyn 1.33. Diwygiwyd Nodyn 1.33 i gynnwys £86,000 o drafodion mewn perthynas â'r partïon cysylltiedig hyn.</p>	I sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.



Gwerth y cywiriad	Natur y cywiriad	Rheswm dros gywiro
£163,000 (Dim effaith ar y fantolen ar y cyfan)	<b>Nodyn 1.19 Offerynnau Ariannol</b> O dan y pennawd Credydwyr, mae Rhwymedigaethau Ariannol yn ôl cost amorteiddiedig wedi cael eu diwygio o £31,756,000 i £31,593,000 sy'n ostyngiad o £163,000 oherwydd gwall yn y cyfrifiad.	I sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.
Amrywiol (Dim effaith ar y prif ddatganiadau ar y cyfan)	Gwnaed nifer o fân newidiadau i'r datganiadau ariannol mewn perthynas â naill ai diwygio datgeliadau gwybodaeth neu newidiadau naratif.	I sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol.



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.  
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.